# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Papur HSS(2)-03-07(p10)**


**Dyddiad:** 7 Chwefror 2007
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Y diweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSSC) am yr Ymgyrch i Ddal-i-Fyny â'r MMR

**Diben**
I roi'r newyddion diweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am yr ymgyrch i ddal-i-fyny â brechiadau MMR yng Nghymru.

**Cefndir**
Gofynnodd y Pwyllgor HSSC am adroddiad yn nodi nifer y plant sydd wedi cael eu brechu fel rhan o'r rhaglen dal-i-fyny â'r MMR. Lluniwyd yr adroddiad gan raglen 'Brechu rhag Clefydau y gellir eu Hatal' y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS).

**Effaith polisi y Cynulliad ar MMR: ymgyrch dal-i-fyny ymysg pobl ifanc 11-25 mlwydd oed yng Nghymru**

1. Mae crynodeb o'r adroddiad cychwynnol gan yr NPHS ar yr ymgyrch dal i fyny ag MMR i'w weld isod:




**Ffigur 1 – Statws imiwneiddio plant 2 oed yng Nghymru, 1970-2006**
Ffynhonnell: LlCC, Ystadegau Imiwneiddio'r GIG, Cymru: 2005-06

2. Cafodd yr ymgyrch dal-i-fyny ei chynnal mewn ysgolion uwchradd, colegau, a phrifysgolion yng Nghymru o fis Hydref 2005 i fis Mai 2006. Cafodd y rhai nad oeddent mewn addysg gynnig yr MMR gan eu Practis lleol.


3. Yn ystod yr ymgyrch cafodd 60,820 o blant a myfyrwyr eu himiwneiddio gydag un dos o MMR neu fwy.

4. Roedd cyfanswm o 126,657 o ddisgyblion ysgol uwchradd mewn 293 o ysgolion wedi methu un ai un dos o MMR neu'r ddau. O'r rhain, cafodd 53,708 un dos o MMR neu fwy, 42.4% o'r rheini yn y grwp targed (Tabl 2). Roedd ffigurau'r BILlau yn amrywio o 21.5% i 75.0%; a ffigurau'r Ymddiriedolaeth GIG ym amrywio o 21.8% i 72.2%

5. Cafodd cyfanswm o 7112 o fyfyrwyr mewn colegau a phrifysgolion eu brechu â'r MMR. Cafodd 12.6% o fyfyrwyr coleg y brechiad a 2.9% o fyfyrwyr prifysgol.

6. Mae nifer y bobl sydd wedi dal Clwy'r Pennau wedi gostwng i lefelau isel ers dechrau'r ymgyrch (Ffigur 2). Mae nifer yr achosion yng Nghymru yn is nag yn unrhyw un o ranbarthoedd Lloegr, gyda dim ond chwe achos wedi'u cadarnhau rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2006

**Ffigur 2 – Hysbysiadau Clwy'r Pennau, Cymru Ion 2005 – Rhag 2006**




Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

## Casgliad


7. Mae'n ymddangos bod yr ymgyrch dal i fyny â'r MMR wedi bod yn effeithiol o ran rheoli'r achosion o glwy'r pennau yng Nghymru.

8. Byddwn yn dal i fonitro'r cynlluniau sydd ar waith i reoli'r frech goch, clwy'r pennau a rwbela yng Nghymru.

9. Mae copi o'r adroddiad gyda rhagor o wybodaeth a thablau ar gael gan Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd.

**Brian Gibbons**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt: Neil Robins, Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd, Ffôn: 029 20825397




| Hib yn cael ei gyflwyno yn ystod 1992-93 |
| --- |


| Llid yr Ymennydd C yn cael ei gyflwyno yn ystod 1990-00 |
| --- |

- **Difftheria, tetanws a pholio ***
- **Pertwsis**
- **MMR[2]**
- **Hib[3]**
- **Llid yr ymennydd C**

*** Ffigurau ar gyfer difftheria, tetanws a pholio wedi'u cyfuno gan eu bod bron â bod union yr un peth – gweler Tabl 1**

**[2] Y Frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae ffigurau cyn 1994-95 yn cynnwys brechlyn sengl  y frech goch**

**[3] Haemophilus influenzae teip b.**




Data hysbysu rhanbarthol: Clwy’r Pennau

Dyddiad yr adroddiad: Llun 4 Rhag 2006 Wythnos yn gorffen: Sul 3 Rhag 2006

Data at ddiwedd wythnos: 2006 Wythnos 48

Cyfradd pob 100,000 o’r boblogaeth (vertical axis)

Wythnos (horizontal axis)